Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn yr **Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun, nos Lun, 2 Rhagfyr 2019** am **8:00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Ken Hawkins, Gavin Harris, Ian Lewney, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

36. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd John Wynne Hughes.

37. DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd budd personol gan y Cynghorwyr Ken Hawkins a Heather Williams fel Cadeirydd ac aelod Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon yng nghyswllt Eitem 6, ceisiadau cynllunio 02/2019/0927 a 02/2019/0931 o ran Llys Awelon, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun.

38. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2019 yn gywir.

39. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

40. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2019/0942 - Ye Olde Crosse Keys Inn, Llanfwrog, Rhuthun – Manylion arolwg ffotograffig a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 3 caniatâd cynllunio 02/2014/1121/PF – Cymeradwywyd
02/2019/0906 – Gwynfryn, Stryd Cerrig, Llanfwrog – Adeiladu estyniad i adeilad amaethyddol sy'n bodoli eisoes – Caniatawyd
02/2019/0829 – Tir oddi ar yr A525 rhwng Ocsiwn Rhuthun a Lôn Gwernydd, Rhuthun – Arddangos 3 arwydd ffasgia – Cymeradwywyd
02/2019/0831 – 17 Ffordd Edern, Rhuthun – Gwaith i goed sy'n ffurfio rhan o Orchymyn Cadw Coed – Caniatawyd

41. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2019/0946 – Glaslyn, Ffordd Cae Glas, Rhuthun
Codi estyniad porth blaen a gosod ffenestr ddormer i lety ar y llawr cyntaf a gwaith cysylltiedig
02/2019/0944 – Tŷ Cefn, Llanfwrog, Rhuthun
Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i'r cwrtil domestig presennol (cais ôl-weithredol)
02/2019/0968 – Nantclwyd y Dre, 10 Stryd y Castell, Rhuthun
Gwaith i goed yn ardal gadwraeth Rhuthun
02/2019/0983 – Fflatiau 1-8 Pant Glas, Ffordd Cae Glas, Rhuthun
Addasiadau allanol i 2 floc o fflatiau
02/2019/0927 – Llys Awelon, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
Dymchweld rhannol cartref gofal a chanolfan gymuned sy'n bodoli eisoes ac adeiladu cynllun gofal ychwanegol 35 uned yn cynnwys cyfleusterau cysylltiedig ar y safle, tirlunio, parcio a gwaith cysylltiedig
02/2019/0931 – Llys Awelon, Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel rhannol cartref gofal a chanolfan gymuned sy'n bodoli eisoes
02/2019/0895 – Tir yng Nglasdir, Rhuthun
PENDERFYNWYD: *anfon sylwadau'n nodi: Croesewir y nifer arwyddocaol o gartrefi fforddiadwy a chymdeithasol, fodd bynnag mae'r aelodau o'r farn bod defnyddio'r darn tir nesaf at yr ysgol yn cyfaddawdu'r cynllun tai a darpariaeth chwarae a gallu Ysgol Stryd y Rhos i gael estyniad yn y*

dyfodol. Byddai'r eiddo hyn yn agos iawn at yr ysgol a gofynnodd yr aelod i'r pum uned gael eu dileu o'r cais cynllunio.

42. AMCANGYFRIFON ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau drafod ac ystyried gwariant y Pwyllgor ym mlwyddyn ariannol 2019 / 2020.

PENDERFYNWYD: *cytuno ar wariant o £1,300 am y flwyddyn ariannol 2019/20.*

43. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 6 Ionawr 2020 am 8pm.*